# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 5

CYLLID TAI

*Darpariaeth gyffredinol*

### 135 Darparu gwybodaeth ar gais

(1) Rhaid i awdurdod tai lleol ddarparu i Weinidogion Cymru y gyfryw wybodaeth y caiff Gweinidogion Cymru ei phennu at ddibenion galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau o dan yr adran hon yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achos neilltuol.

(3) Os bydd awdurdod tai lleol yn peidio â chydymffurfio â'r adran hon cyn pen unrhyw gyfnod y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu, caiff Gweinidogion Cymru arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon ar sail unrhyw ragdybiaethau ac amcangyfrifon y mae Gweinidogion Cymru yn gweld yn dda.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 135 mewn grym ar 17.11.2014, gweler **a. 145(2)**

### 136 Dyfarniadau o dan y Rhan hon

(1) Caiff dyfarniad o dan y Rhan hon wneud gwahanol ddarpariaeth ar gyfer gwahanol achosion neu ddisgrifiadau o achos, gan gynnwys gwahanol ddarpariaeth—

(a) ar gyfer gwahanol ardaloedd;

(b) ar gyfer gwahanol awdurdodau tai lleol;

(c) ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o awdurdod tai lleol.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2019.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Croes Bennawd: Darpariaeth gyffredinol. (See end of Document for details)*

(2) Cyn gwneud dyfarniad o dan y Rhan hon sy'n ymwneud â phob awdurdod tai lleol neu ddisgrifiad o awdurdod tai leol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw—

(a) gynrychiolwyr llywodraeth leol yng Nghymru, a

(b) personau eraill,

ag y bo'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

(3) Cyn gwneud dyfarniad o dan y Rhan hon sy'n ymwneud ag awdurdod tai lleol neilltuol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod tai lleol hwnnw.

(4) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi gwneud dyfarniad o dan y Rhan hon, rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r dyfarniad at yr awdurdod neu'r awdurdodau tai lleol y mae'n ymwneud â hwy.

(5) Mae is-adrannau (4) i (7) o adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (defnyddio dulliau cyfathrebu electronig i anfon copïau o ddyfarniadau) yn berthnasol i ddyfarniad o dan y Rhan hon fel ag y maent yn berthnasol i ddyfarniad a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ran 6 o'r Ddeddf honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 136 mewn grym ar 17.11.2014, gweler **a. 145(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2019.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Croes Bennawd: Darpariaeth gyffredinol.